



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**



Gwyllo Morloi

o amgylch PARTH CADWRAETH MOROL SGOMER

// Sut i wyllo morloi a'u lloi yn gyfrifol



www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Ffeithiau am forloi a'u lloi

Wyddech chi?

Mae arfordir Sir Benfro yn gartref i **gannoedd o forloi llwyd**. Mae'r benywod yn rhoi genedigaeth i lo ar draethau tawel ac mewn ogofâu o fis Awst i fis Rhagfyr.

Pan na fyddont yn bwydo neu'n teithio, bydd morloi llwyd **yn gorffwys ar y lan** ar greigiau neu draethau, ar wyneb y dŵr neu o dan y dŵr.

Bydd y mamau'n dod i'r lan i fwydo'u lloi deirgwaith neu bedair gwaith y dydd. Rhaid i'r lloi **dreblu eu pwysau genedigol** yn eu tair wythnos gyntaf, felly rhaid iddynt gael eu bwydo'n rheolaidd. Pan gaiff y llo ei ddiddyfnu, bydd y fam wedi colli hyd at draean o bwysau ei chorff.

Mae'r lloi gwyn blewog yn treulio'u **tair wythnos gyntaf ar y lan**, yn bwydo a chysgu. Gall rhai fod yn eithaf gweithgar gan fynd i nofio'n aml, hyd yn oed cyn eu bod yn wythnos oed.

Ar ôl tua 3 wythnos, caiff y lloi eu gadael i ofalu am eu hunain. Erbyn hyn byddant wedi **diosg eu cotiau gwyn**. Byddant yn gadael y traethau, ond yn dychwelyd i'r lan i orffwys yn rheolaidd.

Bydd y morloi'n paru cyn gynted ag y bydd y fam wedi diddyfnu'r llo, ond **mae'r morloi gwrywaidd yn aml yn poenydio'r benywod** tra eu bod yn dal i fwydo.

Ar ôl paru, ni fydd y morloi yn beichiogi am dri mis. Unwaith y bydd y bechiogrwydd yn cychwyn, bydd yn para naw mis - **blwyddyn ers paru!** Gall benywod aeddfed roi genedigaeth i lo bach bob blwyddyn.

Pryd: Awst - Rhagfyr

Ble: Ar draethau Penrhyn Marloes ac Ynys Sgomer.

Sut: Mae'n hawdd tarfu ar forloi. Cadwch mor llonydd a thawel â phosibl. Os ydych yn gwyllo o'r clogwyni, cadwch yn isel a pheidiwch â thafli cysgod dros y traeth islaw.

Pheidiwch â mynd yn rhy agos at y morloi.

Os cânt eu poeni, bydd y mamau'n cadw draw heb fwydo eu lloi. Weithiau bydd y fam yn troi'n ymosodol, a gall hyd yn oed adael ei llo.

PERYGL! Cadwch draw o ymyl y clogwyn. Gallai gwynt cryf neu lithriad fod yn angheuol.



DOSBARTH III (11-15 DIWRNOD)
Corff crwn neu siâp casgen. Ni ellir gweld y gwddf. Cot wen.

Beth yw oedran y lloi bach?



DOSBARTH I (0-5 DIWRNOD)
Corff tenau, gwddf amlwg, croen mewn crychion llac o amgylch y corff. Gall y got fod braidd yn felyn. Yn symud yn eithaf lletchwith.



DOSBARTH IV (16-20 DIWRNOD)
Siâp fel III ond wedi colli rhywfaint o'r ffwr gwyn (bydd cot oedolyn yn ei le). Wedi neu ar fin cael ei ddiddyfnu.



DOSBARTH II (6-10 DIWRNOD)
Corff llyfnach. Mae'r gwddf i'w weld o hyd, ond nid oes crychion llac o amgylch y corff. Mae'r got yn wynnach. Swnllyd iawn.



DOSBARTH V (21+ DIWRNOD)
Y ffwr gwyn wedi'i ddiosg yn llwyr. Mae'n colli rhywfaint o bwysau ar ôl diddyfnu. Yn aml yn symud i ffwrdd o'r ardal fridio.


Ffeithiau am forloi

Wyddech chi?

Mae morloi benywaidd yn byw am tua 35 mlynedd a'r gwrywod am tua 25 mlynedd. Oed cenhedlu'r ddau ryw yw rhwng pedwar a phump. Mae gwrywod sy'n paru'n llwyddiannus yn debygol o fod rhwng 11 a 16 oed.

Gellir adnabod morloi gwrywaidd drwy edrych ar eu ffroenau, sy'n fwy o faint ac ar ffurf "trwyn Rhufeinig". Yn aml mae gan forloi benywaidd ffwr goleuach ar eu gyddfau.

Nid yw'r gwrywod yn ymladd yn aml iawn, ond maent yn cystadlu am y benywod gyda symudiadau a synau bygythiol yn ystod y tymor paru.



// Benyw



// Lluniau gan Staff Parth Cadwraeth Morol Sgomer

// Gryw

I ddysgu mwy am Parth Cadwraeth Morol Sgomer ewch i'r arddangosfa (sydd fel arfer ar agor bob dydd rhwng y Pasg a mis Hydref yn y cyfeiriad isod) neu gallwch lawrlwytho'r ap drwy sganio'r cod QR perthnasol ar gyfer Google Play Store neu Apple Appstore.



Google Play Store



Apple Appstore



Parth Cadwraeth Morol Sgomer,
Bwthyn y Pysgotwr, Martin's Haven,
Marloes, Sir Benfro, SA62 3BJ
Ffôn: 0300 065 3000
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk